CABINET

COFNODION Y CYFARFOD AMLSAFLE A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DYDD LLUN, 26 MEDI 2022 AM 2.00PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

J. Pritchard (Yr Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a'r Newid yn yr Hinsawdd), C. Andrews (Yr Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), N. George (Yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo), S. Cook (Yr Aelod Cabinet dros Dai), P. Leonard (Yr Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd) a C. Morgan (Yr Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd), Y Cynghorydd J. Simmonds (Yr Aelod Cabinet dros Briffyrdd a Thrafnidiaeth).

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Yr Economi a'r Amgylchedd) a R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), L. Lane (Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a'r Dirprwy Swyddog Monitro), N. Taylor-Williams (Pennaeth Tai), S. Harris (Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151), R. Kyte (Pennaeth Cynllunio ac Adfywio), P. Hudson (Arweinydd Tîm Adnewyddu Busnes), T. McMahon (Rheolwr Adfywio Cymunedol), C. Forbes-Thompson (Rheolwr Craffu) a E. Sullivan (Uwch Swyddog y Gwasanaethau Pwyllgorau).

TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd yr Arweinydd y rhai sy'n bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw a byddai recordiad ar gael ar wefan y Cyngor, oni bai am drafodaethau sy'n cynnwys eitemau cyfrinachol neu'r rhai sydd wedi'u heithrio. Cliciwch yma i wylio.

1.YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan E. Forehead (Yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol) a D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)

2.DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

3.CABINET – 7 MEDI 2022

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Medi 2022 fel cofnod cywir.

4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Rhoddwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, sy'n manylu ar yr adroddiadau sydd wedi'u trefnu tan 14 Rhagfyr 2022.

Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen Waith y Cabinet yn ddogfen weithio ac felly gallai newid. Diolchodd yr Arweinydd y Swyddogion am lenwi'r flaenraglen waith mor gynnar a derbyniodd y Cabinet y gallai newid gan ei bod yn ddogfen fyw.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod y Flaenraglen Waith yn cael ei nodi. Cafodd hyn ei gytuno'n unfrydol drwy ddangos dwylo.

5.GRŴP GORCHWYL A GORFFEN MEYSYDD PARCIO CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o'r argymhellion o'r cyfarfod ar y cyd rhwng Pwyllgorau Craffu'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd a Thai ac Adfywio a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2022 ynghylch canfyddiadau Grŵp Gorchwyl a Gorffen Meysydd Parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Nododd y Cabinet fod y Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi adolygu ffioedd parcio ceir yng nghanol y dref yng ngoleuni effeithiau'r pandemig ar economi'r stryd fawr gan ganolbwyntio ar y 6 prif ganol tref sef Bargod, Coed-duon, Caerffili, Trecelyn, Rhisga ac Ystrad Mynach.

Cyfeiriwyd at yr opsiynau ffioedd yn y dyfodol a nodwyd yr ystod o opsiynau a adolygwyd ynghyd ag argymhelliad cyffredinol y Grŵp. Cyfeiriodd y Cabinet at Adran 10 o adroddiad y Swyddogion a nodiadau'r Cydbwyllgor Craffu a gynhaliwyd ar 28 Gorffennaf 2022.

Cyfeiriodd yr Arweinydd at sylwadau yr oedd wedi'u derbyn gan Gyngor Tref Coed-duon, y Cynghorydd A. Farina-Childs a busnes Coed-duon mewn perthynas â'r adroddiad a chanfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen. Gofynnodd i'r Cabinet nodi yr oedd 3 Aelod Annibynnol yn rhan o'r aelodaeth Gorchwyl a Gorffen, a oedd wedi cynnwys cynrychiolaeth drawsbleidiol lawn, ac felly bydden nhw wedi cyfrannu'n llawn at yr argymhellion a gyflwynwyd i'w hystyried. Yna cyfeiriwyd at gais gan y Cynghorydd K. Etheridge i annerch y Cabinet ynghylch yr adroddiad hwn a dywedodd yr Arweinydd fod y Cynghorydd Etheridge wedi annerch cyfarfod y Cydbwyllgor Craffu yn flaenorol a bod ei sylwadau wedi'u nodi'n llawn.

Nododd Aelodau y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen, y Cydbwyllgor Craffu a'r Cabinet bellach yn ystyried beth sydd orau i'r holl Ganolfannau Trefi yn eu cyfanrwydd a rhoddwyd sicrwydd bod y Cabinet wedi gwrando ar ganfyddiadau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac ar argymhellion y Cydbwyllgor Craffu.

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid cymeradwyo'r argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddogion, yn amodol ar gynnwys 2 argymhelliad ychwanegol yn 3.5 a 3.6 o adroddiad y Swyddogion i ddarllen (1) y dylid gohirio gweithredu'r taliadau newydd tan ddydd Llun 2 Ionawr 2023 i ganiatáu'r 8-10 wythnos er mwyn gwneud y newidiadau i'r peiriant codi arian a'r feddalwedd, a (2) y bydd y £150,000 o incwm a gollir o gyllideb Priffyrdd ar gyfer y 3 mis o fis Hydref 2022 i fis Ionawr 2023 yn cael ei ariannu o'r Gronfa Covid a glustnodwyd, a chafodd hyn ei gytuno'n unfrydol drwy gadarnhad ar lafar a Microsoft Forms.

.

PENDERFYNWYD, am resymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Cynorthwyo gostwng y ffi fesul awr gychwynnol ym meysydd parcio Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i 40c ar gyfer yr awr gyntaf a chynorthwyo'r tariff presennol ar gyfer unrhyw oriau wedi hynny.

2. Cymeradwyo parhau i atal taliadau meysydd parcio dros dro hyd nes y gellir newid meddalwedd y peiriant tocynnau, a chaniatáu digon o amser i weithredu hyn a chytuno i ailgyflwyno'r ffioedd yn unol â'r uchod o fis 2023.

3. Cymeradwyo cyllid ychwanegol i gyllideb y Gwasanaethau Priffyrdd er mwyn diwallu'r diffyg fel yr amlinellir yn y Goblygiadau Ariannol yn seiliedig ar golled incwm blynyddol o £83 mil ar amcangyfrif.

4. Bod darparu adroddiad o effaith i'r Pwyllgor Craffu 12 mis ar ôl gweithredu'r newidiadau yn cael ei gymeradwyo.

5. Cymeradwyo gohirio'r ffioedd newydd tan ddydd Llun 2 Ionawr 2023 i ganiatáu 8-10 wythnos er mwyn gwneud newidiadau i'r peiriannau a'r feddalwedd codi tâl.

6. Talu am golled incwm gwerth £150,000 o Gyllideb y Gwasanaethau Priffyrdd ar gyfer y 3 mis rhwng mis Hydref 2022 a mis Ionawr 2023 drwy Gronfa Wrth Gefn Covid.

Gyda chymeradwyaeth y Cadeirydd, cafodd Eitem Rhif 8 ar yr Agenda – adroddiad Alldro'r Gyllideb Refeniw Dros Dro ar gyfer 2021/22 ei dwyn ymlaen i'w thrafod.

8. ALLDRO'R GYLLIDEB REFENIW DROS DRO AR GYFER 2021/22

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn rhoi manylion alldro'r gyllideb refeniw dros dro i'r Cabinet ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021/22 cyn bod Archwilio Cymru'n cwblhau'r archwiliad allanol blynyddol o'r cyfrifon.

Nododd y Cabinet fod yr archwiliad yn cael ei gynnal gan Archwilio Cymru cyn Datganiadau Ariannol 2021/22 ac yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor. Roedd yr adroddiad yn rhoi trosolwg ar berfformiad y Cyngor yn erbyn y gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22. Roedd yr adroddiad hefyd yn manylu ar ystod o gynigion ar gyfer defnyddio balansau dros ben y Gronfa Gyffredinol a'r defnydd o arian dros ben gwasanaethau.

Dywedwyd wrth y Cabinet bod yr Awdurdod yn parhau i dalu am gostau ychwanegol sylweddol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 oherwydd pandemig Covid 19 a'i fod hefyd wedi colli incwm mewn sawl maes allweddol. Fodd bynnag, roedd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cyllid sylweddol i Awdurdodau Lleol i wrthbwyso costau ychwanegol a cholled incwm drwy Gronfa Caledi Covid 19, a ddyrannodd £19.025m i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Yn ogystal, roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grant penodol i Awdurdodau Lleol i helpu gydag amrywiaeth o bwysau ariannol eraill, gan gynnwys £878 mil i helpu i liniaru gostyngiad mewn cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor, £2.576m ar gyfer Tracio, Olrhain ac Amddiffyn, £4.036m ar gyfer Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol a £1.017m ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol Oes.

Yn yr un modd â blwyddyn ariannol 2020/21, roedd lefel y tanwariant ar gyfer 2021/22 yn sylweddol uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol, gan adlewyrchu effaith barhaus y

pandemig ar arferion gweithio a graddfa'r cymorth ariannol a ddarparwyd, ac ni ddaeth rhannau helaeth o'r rheiny i'r amlwg tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol. Manylwyd ar, a nodwyd yr amrywiaeth fwyaf sylweddol yn y gyllideb ar gyfer pob gwasanaeth.

Cyfeiriwyd y Cabinet at adran 5.10 o adroddiad y Swyddogion a oedd yn rhoi manylion yr effaith ar y Gronfa Gyffredinol ac i Atodiad C a oedd yn rhestru'r defnydd o'r arian dros ben a gymeradwywyd gan Swyddogion gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig.

Cyfeiriwyd at yr effaith yn ystod y flwyddyn ar Ddyfarniadau Cyflog 2022/23 a chadarnhaodd Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol a'r Swyddog Adran 151 fod y ffigur yn adlewyrchu'r cynnig cyflog diweddaraf ar gyfer Staff y Cydgyngor Cenedlaethol a Staff Addysgu, gyda chynnydd o £1,925 ar bob pwynt cyflog o fis Ebrill 2022, gyda chyflog athrawon yn cynyddu gan 5% o fis Medi 2022. Roedd hyn wedi arwain at ofyniad cyllidebol ychwanegol o £6.860m ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a chafodd hyn ei gytuno'n unfrydol drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Nodi sefyllfa alldro'r gyllideb refeniw dros dro ar gyfer 2021/22.

2. Cytuno bod y grant Casgliadau Treth Gyngor gwerth £878 mil a gafwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn 2021/22 yn cael ei roi o'r neilltu mewn cronfa wrth gefn a glustnodwyd i helpu i liniaru effaith ariannol o ddiffyg pellach posibl mewn cyfraddau casglu'r Dreth Gyngor ym mlwyddyn ariannol 2022/23.

3. Cynorthwyo argymhelliad i'r Cyngor i gynnal balans y Gronfa Gyffredinol ar £11.852m, sy'n adlewyrchu 3% o gyllideb refeniw net 2022/23.

4. Cynorthwyo'r defnydd arfaethedig o falansau dros ben y Gronfa Gyffredinol, sy'n dod i gyfanswm o £14.333m fel y manylir yn adran 5.10 o'r adroddiad, cyn ei ystyried gan y Cyngor ar 4 Hydref 2022.

5. Nodi'r defnydd o'r arian dros ben o wasanaethau, sy'n dod i gyfanswm o £2.414m, sydd wedi'i gytuno gan Swyddogion gan ddefnyddio pwerau dirprwyedig fel y manylir yn Atodiad C.

6. Cymeradwyo'r defnydd arfaethedig o arian dros ben gwasanaethau sy'n dod i gyfanswm o £3.498m fel y nodir yn adran 5.11 o'r adroddiad.

6. CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI - YMATEB I'R ARGYFWNG COSTAU BYW

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar y gwaith oedd yn mynd rhagddo mewn ymateb i'r argyfwng costau byw, er mwyn dangos ystod a graddau'r cymorth oedd yn cael ei ddarparu. Ceisiwyd cytundeb y Cabinet hefyd ar ymateb cychwynnol i helpu cymunedau a rhai o'r trigolion mwyaf agored i niwed o ran yr argyfwng costau byw presennol.

Nododd y Cabinet nad oedd y cysyniad o'r Cyngor yn rhoi cymorth i breswylwyr mewn anawsterau ariannol yn newydd a chyda chwyddiant ar ei lefel uchaf ers dros 30 mlynedd, a chostau ynni'n cynyddu ar y gyfradd gyflymaf mewn cof, nid oes amheuaeth y bydd llawer o bobl yn wynebu penderfyniadau anodd dros ben wrth geisio gofalu am eu hunain a'u teuluoedd wrth i'r gaeaf ddod yn nes. Ar yr un pryd, mewn gwirionedd, mae enillion yn gostwng, mae cyfraddau llog yn cynyddu, a bydd angen ymateb i'r heriau hyn. Yn yr un modd ag yn ystod y pandemig, bydd angen blaenoriaethu'r cymorth gan gydweithredu ar draws gwasanaethau, defnyddio rhwydweithiau cryf a chyfathrebu'n effeithiol.

Amlinellwyd y cymorth allweddol presennol a manylwyd ar y gwaith a wnaed gan y tîm Gofalu am Gaerffili, Rhenti Tai, Cefnogi Pobl, Treth Gyngor, y Gwasanaethau Arlwyo, Budd-daliadau Tai ac Addysg. Cafodd cynigion pellach am gymorth targedig eu crynhoi a nododd y Cabinet fod awgrymiadau wedi'u cyflwyno gan staff a Chynghorwyr.

Cyfeiriwyd at adran 5.12 o adroddiad y Swyddog a'r diweddariad ar Gynllun Cymorth Costau Byw Llywodraeth Cymru a'r pecyn o fesurau oedd wedi'i gynnwys ynddo. Nododd y Cabinet y galw sylweddol y byddai'r argyfwng hwn yn ei roi ar yr awdurdod, yn enwedig gan nad oes unrhyw syniad o hyd yr argyfwng nac i ba raddau y byddai'r argyfwng yn effeithio ar ran fwyaf o ddinasyddion y Fwrdeistref Sirol.

Ceisiwyd cadarnhad ar ba fath o gymorth byddai'n cael ei ddarparu i fentrau banciau bwyd/rhannu bwyd a chadarnhaodd Swyddogion fod ystod eang o gymorth ar gael, yn ariannol a thrwy gymorth staff. Cyfeiriwyd at gyllideb y grant tlodi bwyd, a nodwyd y gellid manteisio ar yr arian hwn drwy broses ymgeisio syml.

Nododd y Cabinet y cymorth sydd eisoes yn cael ei ddarparu gan y Cyngor a darparodd y Prif Weithredwr amlinelliad o'r cynlluniau, gan gynnwys Gofalu am Gaerffili a sut y byddai trigolion yn gallu cael gafael ar bopeth sydd ar gael i'w helpu yn ystod yr argyfwng, gan weithio gyda phartneriaid a byddai symleiddio a mireinio'r ddarpariaeth yn hollbwysig wrth symud ymlaen, ond ni fyddai hyn yn negyddu'r effaith ar unigolion yn gyfan gwbl wrth i'r argyfwng waethygu.

Yna ceisiwyd cadarnhad ynghylch lefel yr ymateb i Sioeau Teithiol Costau Byw a chadarnhaodd y Swyddog eu bod yn cael eu cynnal bob dydd drwy gydol mis Medi, gan ddefnyddio amrywiaeth o leoliadau yng nghanol trefi ac mewn cyfleusterau cymunedol llai. Nodwyd bod lleoliadau canol trefi wedi denu'r nifer fwyaf o bobl gyda 86 o drigolion wedi'u cynorthwyo hyd yma. Roedd y prif bryderon a godwyd yn y digwyddiadau'n canolbwyntio ar filiau ynni, cymhwysedd ar gyfer hawlio budd-daliadau a chael gafael ar fanciau bwyd. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet y byddai'r sioeau teithiol yn defnyddio cyfrwng teithiol i gyrraedd cymunedau llai a byddai'r Ffeiriau Nadolig sydd ar ddod yn cael eu defnyddio fel cyfle arall i ymgysylltu â phreswylwyr.

Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod y dudalen we yn gweithio a bod cymaint o gyfathrebu ac ymgysylltiad â phosibl yn digwydd gyda phreswylwyr. Cafodd rôl Cynghorwyr o ran cyfeirio a helpu trigolion i gysylltu ei thrafod a nodwyd bod holl aelodau staff rheng flaen yn cael hyfforddiant mewn cyfeirio ac y gellid gwneud yr hyfforddiant hwn ar gael i'r holl Gynghorwyr.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a chafodd hyn ei gytuno'n unfrydol drwy Microsoft Forms a chadarnhad ar lafar.

PENDERFYNWYD, am resymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Cymeradwyo diwygiad i'r elfen ddisgresiynol a gymeradwywyd yn flaenorol o Gynllun Cymorth Costau Byw LIC a fydd yn caniatáu i dalebau'r Swyddfa Bost gael eu dosbarthu i aelwydydd nad ydyn nhw wedi cofrestru ar gyfer taliadau dan y Prif Gynllun.

2. Nodi'r argymhelliad yn Adroddiad Alldro Cyllideb Refeniw Dros Dro 2021/22 i roi cyllid untro gwerth £3m i'r neilltu o falansau dros ben y Gronfa Gyffredinol er mwyn creu Cronfa Caledi Costau Byw i gynorthwyo amrywiaeth o fentrau a fydd yn helpu ein cymunedau.

3. Dirprwyo penderfyniadau mewn perthynas â defnyddio'r Gronfa Caledi Costau Byw i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai ar y cyd ag Arweinydd y Cyngor a'r Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau.

7.CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN LLYWODRAETH Y DU – CYNLLUN BUDDSODDI LLEOL CAERFFILI

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn diweddaru'r Cabinet ar Rondda Cynon Taf yn cyflwyno Cynllun Buddsoddi Prifddinas-ranbarth Caerdydd i Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU fel rhan o Raglen Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cefnogaeth y Cabinet ar gyfer y Cynllun Buddsoddi Lleol sy'n cynnwys trosolwg ar Ymyriadau Cronfa Ffyniant Gyffredin Arfaethedig sy'n benodol i Gaerffili fel y manylir yn Atodiad 2 a 3 o adroddiad y Swyddog.

Nododd y Cabinet fod Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn brif sail agenda Codi'r Gwastad uchelgeisiol Llywodraeth y DU a'i bod yn elfen sylweddol o'i gymorth i leoedd ledled y DU. Mae'n darparu £2.6 biliwn o gyllid newydd ar gyfer buddsoddiad lleol a dyrannwyd arian o'r Gronfa i bob ardal o'r DU drwy fformiwla ariannu yn hytrach na chystadleuaeth.

Cafodd yr amcanion Codi'r Gwastad eu hamlinellu a nododd y Cabinet mai ei brif nod oedd meithrin balchder mewn lle a chynyddu newidiadau bywyd ledled y DU. Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet bod Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cael dyraniad amodol o £28,272,298 ac y byddai'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i fuddsoddi mewn adeiladau, gwneud gwelliannau digidol gan gynnwys cysylltedd Wi-Fi a chynnig cymorth i fusnesau lleol drwy Gronfa Fusnes Caerffili. Byddai glanhau canol y dref a gwella hygyrchedd hefyd yn elwa, yn yr un modd â datblygu lleoliadau cymunedol, diwylliannol a threftadaeth i fod yn fwy cynhwysol a hygyrch i bobl o bob gallu ac oedran, a byddai hyn yn anochel yn cynyddu nifer yr ymwelwyr. Cyfeiriwyd at y dyheadau hirdymor ar gyfer mynd i'r afael â diweithdra ac anweithgarwch economaidd, yn enwedig mewn perthynas â grwpiau ar y cyrion, a chroesawodd y Cabinet y cyfle hollbwysig hwn ar gyfer ymyriadau cadarnhaol lleol.

Mewn perthynas â'r rhaglen ddigwyddiadau, ceisiodd y Cabinet gadarnhad ynghylch yr hyn y gellid ei gyflawni a chadarnhaodd y Swyddog y byddai hwn yn gyfle gwych i lansio rhaglen ddigwyddiadau gyffrous, gan adeiladu ar lwyddiannau diweddar, meddwl yn greadigol i ddenu ystod ehangach o gynulleidfa ac felly rhoi hwb i weithgareddau diwylliannol, treftadaeth, theatraidd a chreadigol.

Cydnabuodd y Prif Weithredwr bosibiliadau cyffrous y rhaglen, ond roedd hefyd yn ymwybodol o'r angen am fod yn realistig o ran yr hyn fydd yn gallu cael ei gyflawni yn erbyn yr argyfwng costau byw presennol.

Croesawodd yr Aelodau'r cyfle i ddatblygu economi masnach a nos ymhellach a cheisiodd gadarnhad ar sut y gellid bwrw ymlaen gyda hyn. Dywedodd y Swyddog y byddai capasiti busnesau'n ffocws ac eglurodd y gellid dwyn ymlaen y diddordeb cynyddol mewn defnyddio mannau agored, a gychwynnodd yn ystod y pandemig, i gynyddu busnes a allai fod yn hanfodol ar gyfer cynaliadwyedd busnesau a'r sbardun i gynyddu ymwelwyr â chanol y dref. Fodd bynnag, ni ddylai gweithgareddau diwylliannol fod yn ystyriaeth ar gyfer y nos yn unig, ond yn barhaus drwy gydol y dydd.

Nododd y Cabinet y buddsoddiad arfaethedig ar gyfer pobl economaidd anweithgar a cheisiodd wybodaeth bellach yn eu cylch. Cadarnhaodd Swyddogion fod llawer o waith eisoes yn mynd rhagddo o fewn y maes hwn. Byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn edrych ar broblemau ar lefel ranbarthol yn ogystal â lleol ac y byddai'n galluogi gwneud gwaith gydag unigolion i nodi'r rhwystrau i gyflogaeth gynaliadwy a chyflwyno ymyriadau amserol a phwrpasol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Boed hyn yn gymorth gyda sgiliau, mentora neu fynediad digidol, byddai'r cymorth yn cael ei symleiddio i raglen sy'n symud yn gyflym o ran ei allu i ymateb i anghenion sy'n newid.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo a chafodd hyn ei gytuno'n unfrydol drwy Microsoft Forms.

PENDERFYNWYD, am resymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog: -

1. Ystyried manylion Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r cyfleoedd ar gyfer yr Arian i gyfrannu'n sylweddol at agendau Llunio Lleoedd, Gwytnwch Cymunedol, Trawsnewid ac Adfywio'r Cyngor ei hun.

2. Nodi bod Cynllun Buddsoddi P-RC wedi'i gyflwyno i'w ystyried gan Lywodraeth y DU gan RhCT.

3. Ystyried a chynorthwyo Cynllun Buddsoddi Lleol Caerffili gan gynnwys trosolwg ar ymyriadau Cronfa Ffyniant Gyffredin Arfaethedig sy'n benodol i Gaerffili, sydd wedi'u hatodi yn Atodiad 2 a 3.

9.BRYN CARNO

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn hysbysu'r Cabinet o'r cynnydd presennol gyda sicrhau cyllid ar gyfer cynllun inswleiddio waliau allanol a fethwyd ar 86 eiddo ar ystâd Bryn Carno yn Rhymni, a cheisiodd cymeradwyaeth y Cabinet hefyd ynghylch yr arian cyfatebol y byddai Caerffili'n ei gyfrannu tuag at gostau'r prosiect o'r Cyfrif Refeniw Tai.

Croesawodd y Cabinet yr adroddiad a'i argymhellion a fyddai'n helpu trigolion Bryn Carno, yn enwedig mewn perthynas â'u hiechyd a lles i ddatrys y problemau o ran yr inswleiddiad wal diffygiol a'r swm sylweddol o ddŵr sy'n mynd i mewn i gartrefi.

Ceisiwyd cadarnhad ynghylch amserlen bosibl ar gyfer cwblhau'r gwaith a dywedodd Swyddogion y byddai hynny yn chwarter olaf 2025 mwy na thebyg, oherwydd natur y gwaith.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a chafodd hyn ei gytuno'n unfrydol drwy Microsoft Forms.

PENDERFYNWYD, am resymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog:-

1. Nodi'r cynnig am gyllid cynllun busnes i Lywodraeth Cymru.

2. Cymeradwyo'r cynllun diwygiedig, y costau a'r amserlen, a chyfateb y cyfraniad ariannol o'r Cyfrif Refeniw Tai mewn perthynas ag eiddo dan berchenogaeth y Cyngor, i gyflawni'r cynllun deiliadaeth niwtral gan Gartrefi Caerffili.

10.RHAGLEN GYFALAF AR GYFER LLETY TROSIANNOL

Ystyriwyd yr adroddiad a oedd yn ceisio hysbysu'r Cabinet o'r Rhaglen Gyfalaf newydd ar gyfer Llety Trosiannol a oedd yn rhoi arian i gyflawni'r Strategaeth Llety Trosiannol ddrafft newydd fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi'r prosiectau a'r cynlluniau a luniodd y cynnig i Lywodraeth Cymru a lefel y cyfraniad sydd ei angen o'r Cyfrif Refeniw Tai i gyflawni'r llety hwn er mwyn cynyddu stoc dai Cartrefi Caerffili.

Nododd y Cabinet yr angen am ddarparu llety trosiannol fel blaenoriaeth i alluogi pobl i symud o lety dros dro, gan gynnwys canolfannau croeso a llety tymor byr arall, tra'n parhau i fodloni'r galw presennol am dai.

Ceisiwyd eglurhad ynghylch i ba raddau y byddai'r Aelod Lleol ynghlwm pe bai'r cynnig yn llwyddiannus, a chadarnhaodd y Swyddogion y byddai'n dod yn rhan cyn gynted â phosibl gan drefnu cyfarfodydd ar wahân i edrych ar safleoedd. Fodd bynnag, roedd angen i Aelodau gofio bod llawer o ddiwydrwydd dyladwy yn mynd rhagddo o hyd, gan gynnwys prosesau cynllunio statudol, cyn y gall unrhyw brosiect ddwyn ffrwyth.

Yna ceisiwyd eglurhad ynghylch nifer y tai y byddai'n cael eu darparu ag eglurhad pellach ynghylch strwythur ac ansawdd 'cartrefi modiwlaidd' fel yr amlinellir yn yr adroddiad. Cadarnhaodd y Swyddog yr oedd disgwyl i 75 o gartrefi gael eu hadeiladu ar draws cyfanswm cynigion y rhaglen gyfalaf ar gyfer llety trosiannol, eto yn amodol ar ganiatâd Cynllunio a Llywodraeth Cymru a chyfleoedd ar y farchnad. O ran ansawdd y cartrefi modiwlaidd, nododd y Cabinet y byddan nhw'n gartrefi a gynhyrchir yn fanwl gywir i'r safonau ansawdd uchaf ac y byddan nhw'n bodloni'r gofynion uchaf o ran ynni a pherfformiad.

Croesawodd y Cabinet y gyfres hon o ddarpariaethau a oedd yn ceisio cynyddu llety trosiannol a'r gallu i ymateb i'r heriau o ddigartrefedd mewn ffordd fwy ystwyth, boed hynny drwy adeiladau newydd sbon neu drosi eiddo presennol.

Nododd y Cabinet y pwysau ar restrau tai a'r newidiadau deddfwriaethol ar ddod a fyddai'n rhoi pwysau ychwanegol ar y sector tai preifat a'r effaith bosibl y byddai'r argyfwng costau byw yn ei chael mewn perthynas ag ôl-ddyledion rhent posibl, colli tenantiaeth a'r niferoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a chafodd hyn ei gytuno'n unfrydol drwy Microsoft Forms.

PENDERFYNWYD, am resymau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog:-

1. Nodi'r cynigion a gyflwynwyd dan y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llety Trosiannol gan gydnabod yr amserlenni ar gyfer cyflawni a chytuno i'r lefel o gyfraniad o'r Cyfrif Refeniw Tai. Nodi nad yw'r un o'r cyflwyniadau wedi'u cytuno'n swyddogol a gallen nhw newid.

2. Os yw'r cynnig yn llwyddiannus, y dylai'r bloc o lety masnachol a phreswyl yn 1 i 6 The Grove, Fochriw gael ei ailwampio a dychwelyd y bloc preswyl i ddefnydd, yn hytrach na'i ddymchwel, fel y cytunwyd yn flaenorol gan y Cabinet yn 2018.

3. Dirprwyo i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai a Phennaeth y Gwasanaethau Ariannol/Swyddog A151 mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet arweiniol dros Dai. Wrth i Lywodraeth Cymru wneud penderfyniadau ar gyflwyniadau presennol a allai fod angen eu hamrywio ac annog cynigion ychwanegol dan y gronfa eleni ac i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf, mae hyn yn galluogi i wneud penderfyniadau yn gyflym, hyd at drothwy ariannol, yn enwedig lle mae cyfleoedd ar y farchnad.

4. Cymeradwyo na all y trothwy ariannu cyfunol ar gyfer dirprwyo fod yn fwy na £4,447,031, a'r cyfan yn dod o'r Cyfrif Refeniw Tai.

Daeth y cyfarfod i ben am 15.04pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod ar 19 Hydref 2022.

_____

CADEIRYDD